# FOREWORD

By Professor Skaila Kanga,
Professor Emerita of Harp, Royal Academy of Music, London.

When Kathryn first mentioned that she was writing a book on harp technique I was delighted, as over the years many of her students who have come to study at London's Royal Academy of Music have impressed me greatly with their solid technical foundation. This has meant their progress musically has been unfettered by months of remedial work.

What is outstanding in this book is the gradual building up of security of hand position, common sense explanation of every step and each part of basic harp technique explained clearly with warnings of what can go wrong!

It is important to spend each day slowly learning and repeating each exercise paying great attention to the tone quality and evenness of each finger. With due diligence and patience Kathryn's students have proved this approach has given them such a head start in their musical studies.

I particularly liked the paragraphs on warming up, footwear and gigs! I highly recommend this book to all teachers and students of all ages.

Professor Skaila Kanga, September 2025.

# Kathryn Rees

Mae Kathryn Rees wedi sefydlu ei hun fel un o athrawon mwyaf blaenllaw Cymru ac yn 2022 fe'i hapwyntiwyd yn Bennaeth Adran y Delyn, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd. Dechreuodd ei gyrfa yn y coleg fel tiwtor techneg ac mae'n hyrwyddwraig angerddol dros annog myfyrwyr i ddatblygu sain brydferth gan ddechrau gyda'r sylfaen cywir. Mae cyn-ddisgyblion a disgyblion presennol Kathryn wedi cael llwyddiant arbennig mewn cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol.

Graddiodd Kathryn o'r Coleg Cerdd ym Manceinion ac aeth ymlaen i dderbyn ei gradd meistr mewn Llenyddiaeth a Pherfformiad Telyn o Ysgol Gerdd Eastman yn Rochester, Efrog Newydd. Mwynhaodd yrfa amrywiol yn dechrau fel telynores gerddorfaol lawrydd yn Swydd Efrog Newydd, ynghyd â dysgu yn ystod ei hafau yn Academi'r Celfyddydau, Interlochen yn Michigan. Parhaodd Kathryn i deithio'n helaeth gyda'i gwaith, yn rhoi datganiadau yng Nghanada, yr Unol Daleithiau a'r Dwyrain Canol, yn ogystal â gweithio'n llawrydd yn yr Almaen a'r Deyrnas Unedig.

Ymhen amser dychwelodd i Gymru a dechrau astudio meddygaeth yn ogystal â magu ei theulu. Daeth ei hamser i ffwrdd o fyd y delyn i ben gyda'i hapwyntiad fel tiwtor yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'n rhoi dosbarthiadau-meistr a gweithdai cyson ac yn aml gelwir arni i feirniadu mewn cystadlaethau.

Mae'n awyddus i hybu telynorion i berfformio cerddoriaeth newydd ac i archwilio potensial y delyn o fewn amrywiaeth o ddulliau. O ganlyniad i hyn, mae Kathryn wedi sefydlu Academi Telyn Cymru, sef academi i delynorion ifanc yng Nghymru sy'n rhoi pwyslais ar sgiliau technegol a chwarae cydweithrediadol. Mae'n ystyried magu'r angerdd yma at ganu'r delyn yn rhan gynhenid o ddatblygu a chefnogi dyfodol yr offeryn, ynghyd â hybu chwilfrydedd i archwilio llais y delyn o fewn tirlun diwylliannol modern, sy'n newid yn barhaus.

# Rhagarweiniad

Mae techneg gadarn yn hollol sylfaenol i gynhyrchu tôn da ac alldaflu sain yn effeithiol. Mae angen ystyriaeth holistaidd gan ddechrau gyda sut i ddal y corff hyd at symudiad y bysedd.

Dechreuodd fy nhaith ar drywydd datblygu sylfaen technegol da yn hwyrach yn fy hyfforddiant. Ar y pryd roeddwn yn dechrau fy ngradd mewn *conservatoire*, a than y pwynt hynny doeddwn heb sylweddoli pwysigrwydd techneg gadarn. Felly, yn sydyn iawn, roeddwn ar gwrs gradd oedd yn mynnu ar yr egwyddorion sylfaenol hyn. O ganlyniad, sylweddolais yn eithaf cyflym bod y newidiadau yn fy chwarae yn trawsnewid fy sain a rhwyddineb fy mherfformio mewn ffordd ddramatig.

Un o fy mhrif amcanion fel athrawes yw bod fy myfyrwyr yn creu sain da. Sain llawn, sy'n alldaflu'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, y nod yw eu bod yn chwarae heb ddal unrhyw densiwn di-angen. Y cynharaf mae'r arferion technegol hyn yn cael eu gweithredu, gorau oll. Er hyn, rwy'n gwybod o brofiad personol ei bod hi'n gwbl bosibl newid arferion yn hwyrach gyda digon o ddyfalbarhad a diwydrwydd. Dydy hi byth yn rhy hwyr!

Yn y llyfr hwn rwyf wedi cynnwys canllawiau hanfodion techneg da gydag ymarferion ac *études* i'ch helpu i weithio ar y sgiliau sylfaenol. Mae'r penodau sy'n dilyn yn canolbwyntio ar bynciau trafod gyda fy myfyrwyr dros y blynyddoedd, yn cynnwys sut i chwarae *bisbigliando* llyfn, harmoneg glir a chordiau llawn eu sain.

Blociau adeiladu sylfaenol eich chwarae yw'r sgiliau yn y llyfr hwn. Os y medrwch feistroli graddfeydd perffaith, arpeggios llyfn a.y.y.b. bydd yn trosglwyddo'n uniongyrchol i ansawdd eich sain a'ch perfformiad.

Kathryn Rees, Medi 2025

# CYNNWYS


| | | TUDALEN |
|---|---|---|
| **Yr Hanfodion** | | 3 |
| Sut i ddal y corff | | |
| Yr ysgwyddau | | |
| Safle'r fraich | | 4 |
| Y fawd | | 5 |
| Y bysedd | | 6 |
| Sain! | | 7 |
| **Cynhesu'r corff** | | 8 |
| **Telynorion y delyn bedal** | | 9 |
| **Graddfeydd** | | 10 |
| Ymarfer y troad | [Ym.1, 2] | 11 |
| Patrymau graddfeydd | | 12 |
| Wythfed ar wahân | [Ym.3a] | |
| Chweched ar wahân | [Ym.3b] | 13 |
| Degfed ar wahân | [Ym.4] | 14 |
| | **Etude Rhif 1** | 16 |
| **Arpeggios a 7fed y Llywydd** | | 18 |
| Un llaw neu dwylo gyda'i gilydd | | |
| Ymarfer y troad | [Ym.5, 6a] | 19 |
| | [Ym.6b] | 20 |
| | [Ym.7] | 21 |
| Ymarfer gwrthdroadau | [Ym.8] | 22 |
| | [Ym.9] | 23 |
| Arpeggios wedi eu rhannu rhwng y ddwy law | | |
| | [Ym.10] | 24 |
| | [Ym.11] | 25 |
| 7fed y Llywydd | [Ym.12a,12b] | 26 |
| | [Ym.12c,Ym.13] | 27 |
| | [Ym.14] | 28 |
| | [Ym.15] | 29 |

| | | TUD |
|---|---|---|
| **Yr Harmoneg** | | 30 |
| Ble i ddarganfod yr harmoneg | | |
| Y llaw dde | | |
| Y llaw chwith | | 31 |
| Dynesu at yr harmoneg | [Ym.16] | 32 |
| Chwarae cordiau harmoneg, 2 neu 3 nodyn | | 33 |
| | [Ym.17] | |
| | [Ym.18] | 34 |
| | **Etude Rhif 2** | 35 |
| **Y *Bisbigliando* Perffaith** | | 36 |
| | [Ym.19] | 37 |
| | [Ym.20] | 38 |
| | **Etude Rhif 3** | 39 |
| **Cordiau** | [Ym.21a, 21b] | 40 |
| | [Ym.22a, 22b] | 41 |
| | [Ym.23a, 23b] | 42 |
| Cordiau wedi eu rholio | [Ym.24a, 24b] | 43 |
| | **Etude Rhif 4** | 44 |
| **Y Llithriad** | [Ym.25a, 25b] | 46 |
| | **Etude Rhif 5** | 47 |
| | **Etude Rhif 6** | 48 |
| **Y Glissando** | [Ym.26] | 50 |
| | **Etude Rhif 7** | 52 |
| **Wythfed Llaw-agored yn y Llaw Chwith** | | 53 |
| | [Ym.27] | 54 |
| | **Etude Rhif 8** | |
| **Graddfa Staccato Gyda'r Ail Fys** | | 56 |
| | **Etude Rhif 9** | 58 |
| **Rhestr Wirio Cyn Teithio Gyda'r Delyn** | | 59 |
| **Atodiad** | | 60 |